




Mae Mentro wedi'i lunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n barod i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i gychwyn ffermio yn annibynnol. Mae'n rhoi arweiniad i bobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig sy'n cynnwys hyfforddiant, mentora, cynngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn darparu'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i gyflawni eu hamcanion.

Gallai'r camau allweddol ar y **daith Mentro** gynnwys y canlynol...




* Mae cyfranogwyr gweithredol yn cyfeirio at y rheini sydd wedi'u cofrestru'n llawn drwy gwblhau proffil Mentro neu sydd ar hyn o bryd yn cael cynngor ar wneud cynllun busnes i sefydlu menter ar y cyd.

* Roedd yr erwau o dir dan sylw yn cynnwys arwynebedd tir yr holl Ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen, gan gynnwys tir sy'n cael ei hysbysebu, tir sydd â Cheisiwr posibl wedi'i neilltuo ar ei gyfer, tir sy'n rhan o gyd-fenter a gwblhawyd a thir y rheini sydd yng nghamau cynnar y broses.



* Mae darparwyr sy'n cynnig cyfle yn cyfeirio at dirfeddianwyr sy'n hysbysebu eu cyfle yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

* Mae rhai sydd wedi cael eu paru yn cynnwys y rheini sy'n datblygu cyd-fenter newydd gyda darpar bartner busnes a hefyd y rheini sydd wedi cwblhau'r broses ac wedi sefydlu cyd-fenter newydd.

Statws



Sectorau (cyfranogwyr gweithredol yn unig)



Digwyddiadau

Diogelu eich busnes fferm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – a yw Menter ar y Cyd yn ddewis?

Cynhaliwyd digwyddiadau yn Nhrawsfynydd, Castell-nedd a Brynbuga ym mis Tachwedd 2021

Nid yw olyniaeth busnes fferm byth bron yn syml; i rai, nid oes olynnydd amlwg i'w gael. Gall y rhaglen Mentro baru thirfeddianwyr a newydd-ddyfodiaid sy'n gallu ymuno â'r busnes i ffermio ochr yn ochr â nhw. Fodd bynnag, fe all fod yn gam enfawr, ac mae llawer o bethau i'w hystyried. Nod y digwyddiadau oedd helpu ac arwain ffermwyr drwy'r broses, a thrafod yr agwedd gyfreithiol ac ariannol ar ymrwymo i gytundeb cyd-fenter gyda phartner busnes newydd, gan gynnwys beth mae'n ei olygu o ran treth a strwythur y busnes. Ymysg y siaradwyr yr oedd y twrnai Dr Nerys Llewelyn Jones, Cynghorydd Amaethyddol, a'r ymgynghorydd busnes Wendy Jenkins, CARA.